**Beirniadaethau Y Goron**
**Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024.**

Daeth 19 ymgais i law a hoffai Elin a finnau ddiolch i bawb a roddodd pin ar bapur. Nid ar chwarae bach mae mynd ati i gyfansoddi darn ar gyfer cystadleuaeth fel hon ac fe gawsom ni'n dwy dipyn o fwynhad yn dethol a thrafod y darnau. Roedd safon y gwaith yn amrywio wrth reswm gyda rhai awduron yn amlwg yn fwy profiadol nag eraill, ond roedd yr ansawdd ar y cyfan yn dda.

Hoffwn godi calon yr ymgeiswyr yn gyntaf trwy ganmol eu defnydd o ddeialog. Roedd nifer o ddarnau yn byrlymu o dafodiaith ag egni â lleisiau y cymeriadau yn tasgu oddi ar y dudalen. Cafwyd hefyd defnydd effeithiol iawn o idiomau a chyffelybiaethau a oedd yn helpu i wreiddio'r darnau yn eu cynefin. Roedd hi'n amlwg fod crefft a thechnegau ysgrifennu rhyddiaith yn gyfarwydd i'r awduron a'u bod yn gwneud y mwyaf ohonynt. Braf oedd gweld ychydig o hiwmor hefyd ynghŷd â rhai darnau mwy esoterig a oedd yn gwthio'r ffiniau.

Os maddeuwch i ni, hoffwn hefyd gynnig ambell air o gyngor. Cofiwch bod angen symudiad mewn darn rhyddiaith er mwyn osgoi llethu'r darllenydd. Cafwyd nifer o 'sefyllfaoedd' yn yr ymgeisiadau ond dim llawer o 'ddigwyddiadau'. Nid oes raid i symudiad fod yn llythrennol, gall y symud ymlaen fod yn emosiynol, ond roedd yna duedd mewn sawl darn i ymdrybaeddu yn yr unfan- rhyw ymsoni yn hytrach na dweud stori. Mae'r arddull wedyn yn tueddu i fynd yn fwy a mwy blodeuog er mwyn ychwanegu diddordeb, ond buan iawn mae'r darllenydd yn colli amynedd.

Dros y blynyddoedd, mae fy nghyd-feirniad Elin a finnau hefyd wedi sylwi ar hoffder awduron ifanc i fynd i'r ymrafael â phynciau dwys a difrifol. Efallai fod yna rhyw ymdeimlad fod dwysder pwnc yn ffordd hawdd o ychwanegu pwysau a gravitas i waith ond dylid bod yn ofalus iawn pan yn ymdrin â themau sensitif. Os ydych yn benderfynol o ysgrifennu am bynciau o'r fath, rhaid ysgrifennu o brofiad personol, neu ymchwilio'n drwyadl gan wybod beth rydych chi eisiau ei ddweud. Os na wrandwch chi arnom ni, ystyriwch eiriau yr anfarwol Wil Sam a ddwedodd unwaith, 'gall lindysyn ddatblygu i ysgrifennu fel glöyn byw ond mae hi'n anodd i löyn byw ysgrifennu fel lindysyn'.

Hynny yw, mwynhewch ysgrifennu am ieuenctid a phrofiadau ieuenctid, fe ddaw y pethau eraill yn ddigon buan coeliwch ni. Ta waeth, fe gytunom yn weddol fuan bod na rhyw bedwar neu bump yn dod i'r brig ac ar ôl hynny fu'n rhaid trafod ac ail-ddarllen. Oherwydd cyfyngder lle, dim ond y tri a ddaeth i'r brig a gaiff sylw yn y fan hyn.

**Cwrci – Sianco**

Cyflwynydd teledu a beirniad eisteddfodol yw Manon sy'n teithio o Gaerdydd i feirniadu yn Nyffryn Aeron ei mebyd. Mae'n amlwg bod gan Sianco ddawn dweud, o gyfleu 'road rage' y prif gymeriad i frawddegau fel 'Byddai beirniadu Ceredigion i'w rhieni fel egluro i fam 'steddfod bod wyneb ei phlentyn yn debycach i constipation nag ystum cerdd dant.' Ond dydi dychwelyd adref ddim yn hwyl i gyd wrth i sgerbydau ei gorffennol ddod i'r fei. Mae yma lais eglur a hiwmor iach ond byddai'r stori wedi elwa ar lai o amwysedd, yn y dechrau a'r diwedd yn enwedig. Byddai pwyllo ychydig a rhoi cynnig ar un drafft arall wedi rhoi sglein ychwanegol ar yr ymgais yma.

**Pwy a Ŵyr - Grwndi**

Dyma ddarn mwyaf gwreiddiol ac off-bît y gystadleuaeth o ran y testun, sef dynes sy'n obsesd â'r Nadolig. Law yn llaw â'r hiwmor, sy'n wirioneddol ddoniol ar adegau, a'r myfyrdodau ecsentrig, ceir ambell ddisgrifiad hyfryd fel yr un o'r haul 'mor boenus o bert, yn llosgi drwy'ch retinas chi o bert'. Wrth i'r stori lifo'n ei blaen daw'n amlwg fod yna reswm y tu ôl i odrwydd yr adroddwraig, a hwnnw'n un ingol. Ond yn hytrach na thraethu'n ddigalon am ei theimladau, cael ei ddatgelu fesul tipyn mae ei thrasiedi personol gan fod yn llawer mwy pwerus o'r herwydd. Braf fyddai wedi gweld ychydig bach yn fwy o symudiad yn y darn, rhyw ddatblygiad emosiynol fyddai wedi gwobrwyo'r darllenydd am aros gyda'r cymeriad cyhyd, ond ar y cyfan, dyma stori gron sydd wedi'i saernïo'n gywrain.

**Coch - Platfform 5**

Dyma stori syml ond pwerus am ferch sy'n disgwyl am ei chariad mewn gorsaf drenau ('Llefydd helô a ffarwel') gyda neges sy'n annhebygol o'i blesio, er na chawn wybod union fyrdwn y neges honno tan y diwedd. Mae'r arddull yn farddonol ar adegau – 'Mae dadlau i fod yn goch, fel cyfnod yn machlud' – ond heb fod yn chwithig, a'r frawddeg olaf gryno yn cyfleu cyfrolau.

Yn ddi-gwestiwn, dyma ddarn mwyaf caboledig a soffistigedig y gystadleuaeth a'r darllenydd yn medru synhwyro fod yna law brofiadol wrth y llyw yn ein arwain trwy'r daith emosiynol. Mae gan Platfform 5 lais graenus a dawn naturiol i fedru synhwyro rhythm stori. Wrth darllen, roedd y ddwy ohonom yn llwyr ymgolli yn y sefyllfa ac yn anghofio mai beirniadu oeddwn ni. Dyna ydi dawn llenor- i greu rhith y gallwn ei gredu gan fynd a'n meddyliau i lefydd newydd.

Cytuna'r ddwy ohonom fod Platfform 5 yn deilwng o'r Goron eleni. Grwndi sydd yn ail, a Sianco'n drydydd.

**BEIRNIADAETHAU UNIGOL:**

**Herio – Bob Marley**
Er bod yma ysgrifennu tafodieithiol rhwydd sy'n trafod pwnc llosg problem tai haf yng nghefn gwlad, braidd yn arwynebol yw'r ymdriniaeth ohoni (fel yn y modd nad yw Mabon fel petai'n ymwybodol o'r broblem nes i'w ffrindiau yn y dafarn dynnu ei sylw ati) a cheir naws henffasiwn bron iddi sy'n golygu nad yw'n darllen fel stori gyfoes.

**Terfynau – Brenig**
Ymsonau am yn ail gan ferch a mam ar ei gwely angau sydd yma. Dylid gochel rhag defnyddio geiriau anghywir fel 'roedd hon wedi fy nadrithio'n llwyr' pan mai'r gwrthwyneb y mae'n ceisio ei gyfleu, ond ceir fflachiadau o hiwmor mewn brawddegau fel "Tydyn nhw'n methu ynganu Rhiannon yn Sheffield!!" Er bod agosrwydd y ddwy'n cael ei gyfleu'n gelfydd, mynd yn feichus wna'r disgrifiadau o alar ar ôl sbel.

**Terfynau – Calor Solis**
Cronicl o brofiadau parafeddyg yng Nghaer a geir yma: cysyniad gwreiddiol ac addawol. Mae'r disgrifiadau o fethu cysgu - 'roedd fy ymennydd yn garwsél ar steroids' - yn glynu yn y cof, yn yr un modd â'r cyfeiriadau at gysuron bach bywyd - 'Mae rhai dyddiau yn galw am gawl, yn does?' Dyma stori a fyddai ar ei hennill o fireinio'r iaith, ei thwtio a'i thocio.

**Terfynau – Celyn Melyn**
Cylch bywyd a geir yma, gan ddechrau â chwarae plentyndod 'Ddoe' a gorffen gyda chwarae gemau fel jig-sô yn henaint 'Tradwy'. Ceir llawer o ddeialog drwyddi draw, a chlyfrwch geiriol ar adegau. Ond yn y pen draw mae'n teimlo'n rhy bytiog ag annelwig i deimlo'n gyflawn.

**Y Diderfyn – Emrys Wledig**
Cast amryfal ar awyren a geir yma. Ymhlith y cymeriadau y mae Aron, sy'n byw dramor ac yn ymweld â'i deulu adref; bechgyn ar drip ysgol a rhywun ag anableddau dysgu sy'n ymateb yn ddiddeall i'r hyn sy'n mynd ymlaen o'i gwmpas: 'Mae'r dyn yn gwneud ryw stumiau efo'i freichiau… Be ydw i'n da 'ma?' Yn yr un modd, braidd yn ddryslyd yw diffyg tryloywder cyffredinol y darn, er bod yr arddull ysgrifennu rhwydd.

**Terfynau – Gwyn**
Tair stori wahanol sydd yma, â'r gyntaf yn un addawol (a thrist o gyfarwydd) am ffermwr ifanc sy'n sigo dan bwysau iselder er gwaetha'i ddelwedd gyhoeddus fel dipyn o glown. Nid yw'r ddwy stori arall cystal, a byddai wedi bod yn rheitiach efallai petai'r awdur wedi cario 'mlaen â'r thema amaethyddol sy'n amlwg mor agos at ei galon.

**Terfynau – Hogan Goll**
Dwy stori wahanol a geir yma. Y gyntaf am ddynes sy'n galaru marwolaeth ei merch i hunanladdiad. Gan mai plismones yw'r fam, collwyd cyfle i ddatblygu stori drosedd neu ddirgelwch, ac yn hytrach mae'r ffocws i gyd ar y galar a'r cyfan i gyd yn rhy eiriog. Digon prudd yw'r ail stori hefyd, am ddynes arall sydd wedi cael llaw galed mewn bywyd.

**Terfynau - Manawydan**
Mae'n syndod efallai mai Manawydan yw'r unig ymgeisydd i fynd i'r afael â phwnc cyfoes y ddeddf 20 milltir yr awr ddadleuol, yn enwedig â hithau'n cynnig ei hun mor dwt i'r thema 'terfynau'. Ond buan y mae'n troi'n foeswers wrth iddo gymharu adwaith chwyrn ei dad ac eraill i'r ddeddf â'u hadwaith llugoer i'r gyflafan yn Gaza. Er bod ganddo bwynt dilys sy'n dweud llawer amdanom ni fel pobol, mae'n teimlo ormod fel pregeth i fod yn wirioneddol effeithiol.

**Terfynau – Rala Rwdins**
Naws wleidyddol sydd i'r darnau hyn. Mae'r gyntaf yn sôn am galedi adeg streic chwarel. Ac er mor dda yw'r frawddeg 'Papur wal parhaol ydi mynyddoedd Dinorwig o tŷ ni', ceir gormod o frawddegau clogyrnaidd fel 'Grwgnachai eu symboliaeth gellweirus rith syniadaeth genedlaetholgar'. Terfysgoedd Beca yw testun yr ail, a'r trydydd yn ymwneud â 'rhywun yn y jêl drosoch chi'. Ond er yr angerdd gwladgarol ac ambell ergyd effeithiol, braidd yn annelwig a phregethwrol yw'r cyfanwaith.

**Terfynau – Rhoswyn**
Cylch bywyd, cariad a cholled yw themâu Rhoswyn, wedi'u hadrodd mewn pytiau o dan deitlau caneuon. Er bod yma ysgrifennu da ac ambell frawddeg gofiadwy – 'Ma' 'na rwbath reit braf am ga'l dod yma ben fy hun bach – rhyw awran o fod yn ecstra ym mywydau prif gymeriadau erill' – nid yw'n cynnal digon o ddiddordeb yn y pen draw, â'r pwyslais ar ymsoni galarus yn hytrach nag ar ddweud stori.

**Terfynau – Taranau**
Trychineb Aberfan, Alzheimers, cemotherapi, cyfeillgarwch wedi chwalu, y byd ar ben. Dyma'r themâu a ddewiswyd gan Taranau i'w trafod yn yr ymsonau hyn. Nid yw'r ysgrifennu'n wael o bell ffordd, ond mae'r gor-ddos o ddigalondid yn ddiflas a byddai'r gwaith yn sicr wedi elwa o fwy o ysgafnder a hiwmor.

**Terfynau – Tarian**
Hanes dyn yn dychwelyd i werthu fferm ei dad ar ôl iddo farw sydd yma, ac ynghyd â'r galar mae euogrwydd ac edifeirwch am beidio â dilyn ôl ei droed. Mae'r ysgrifennu dda ond y darn yn rhy leddf, a byddai wedi elwa ar fwy o gyffyrddiadau ysgafn fel y frawddeg 'Eistedda ddarn o letys o'i frechdan BLT ar ei farf, yn ofni gadael fynd'.

**Terfynau – Trisgell**
Mae Trisgell yn dechrau'n ffres a ffraeth o safbwynt 'Merch normal (touch wood), gwallt euraidd hir trwchus, llygaid brown, diflas fel twlpyn o gachu chi'n ffeindio ar ochr yr hewl'. Ond wedi dechrau addawol, dyma suddo i gors o hunandosturi ac anobaith yn sgil tor-perthynas. Ac er bod rhyw fath o dro yn y gynffon wrth i safbwynt y person arall gael ei adrodd, nid yw hynny'n tynnu'r stori allan o'i merddwr digalon.

**Rhychau Amser – Y Fuwch Goch**

Trafferthion amaethyddol a throeon bywyd yw themâu'r Fuwch Goch. Mae tad a mab yn brwydro i gadw eu fferm, ond er iddyn nhw lwyddo, daw'r medelwr mud i darfu ar eu llawenydd, ar yr un pryd ag y daw bywyd arall i'r byd. Er bod yma ymgais lew i adrodd stori gron, mae'n rhy lafurus a difrifol i ddal diddordeb y darllenydd yn llawn.

**Terfyniadau (for Granny) – Dêfid**

Dyma un o ddarnau mwyaf gwreiddiol y gystadleuaeth, wedi'i hysgrifennu mewn Cymraeg cwbwl ramadegol gywir (ynghyd â rhywfaint o ddeialog Saesneg). Dysgwraig yw nain yr adroddwr sydd â'i bryd ar ddysgu'r iaith yn berffaith – 'difyrrwch ymddeol wedi dod yn genhadaeth bywyd'. Ond er gwaetha'r potensial a'r gwreiddioldeb, mae'r iaith dra chywir yn mynd yn drech na'r darllenydd ar ôl sbel a'r nofelti'n pylu.

**Yn doedden nhw'n ddyddie da – Iris**

Stori o safbwynt pump cyn-fyfyriwr a arferai rannu tŷ  yw hon, â phennawd pob un yn deitl cân bop Gymraeg. Alys sy'n hiraethu am benrhyddid diofal dyddiau coleg ('Does na'm guidebook ar sut i addasu i fywyd go iawn ar ôl rhialtwch bywyd myfyriwr'); Llinos sydd wedi aros yn Aber ond yn gwegian dan bwysau talu rhent ac ymarfer dysgu; Rhodri sy'n cuddio ei rywioldeb rhag ei rieni; Osian a Sioned, y cwpwl sy'n profi 'role reversal' yn eu bywydau a'u perthynas. Ond er bod y sgrifennu'n rhwydd a'r cymeriadau'n gredadwy, byddai mwy o sbarc a gwreiddioldeb wedi gwneud y gwaith yn fwy gafaelgar.